# Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr
# Helpu eich Plentyn sydd â Lleferydd Aneglur
# Therapi Iaith a Lleferydd

Mae rhai plant yn ei chael hi'n anodd dysgu gwrando a defnyddio'r seiniau lleferydd cywir mewn geiriau, brawddegau ac yn ystod sgwrs. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddan nhw'n dweud tath dim cath, docs dim bocs, bwn dim cwn.

Dyma rai syniadau cyffredinol fydd gobeithio'n ddefnyddiol cyn i'ch plentyn weld Therapydd Iaith a Lleferydd.



**Peidiwch â gwneud i'ch plentyn ailadrodd**
Yn lle hynny, ailadroddwch yr hyn y mae eich plentyn wedi'i ddweud ond dywedwch ef yn gywir. Er enghraifft, os bydd eich plentyn yn dweud "Rydw i am gael tar mawr!" - gallech ddweud "Rwyt ti am gael **c**ar mawr". Gwnewch y 'c' ychydig yn uwch na'r seiniau eraill. Cofiwch ar y pwynt hwn, efallai na fydd eich plentyn yn gallu ei ddweud yn gywir, felly eich nod i'ch plentyn yw clywed sut y dylai gael ei ddweud.

**Anogwch ystum a phwyntio**
Gadewch i'ch plentyn fynd â chi at yr eitem os bydd angen neu bwyntio ato. Os na fydd yn yr ystafell, dangoswch iddo ei bod yn iawn iddo wneud ystum gyda'i ddwylo; felly os bydd am gael diod, gwneud ystum yfed neu wneud ystum fel trên os am gael trên tegan. Mewn sefyllfaoedd bob dydd, ceisiwch wneud ystumiau wrth i chi ddweud geiriau e.e. gwneud ystum gyrru wrth fynd allan yn y car. Bydd hyn yn rhoi'r syniad i'ch plentyn.

**Gofynnwch gwestiynau i'w gwneud hi'n haws i ddeall y pwnc y mae eich plentyn yn siarad amdano**
Er enghraifft, "wyt ti'n dweud wrthyf am rywbeth ar y teledu?" neu "wyt ti'n siarad am rywbeth sydd wedi digwydd yn yr ysgol?" Gadewch i'ch plentyn ateb 'ydw' neu 'nac ydw' i'ch helpu i ddeall a pharhau gyda'r sgwrs.



**Adeiladwch hunan- barch**
Os ydych wedi deall rhan o sgwrs eich plentyn, gallwch ailadrodd. Bydd hyn yn dangos iddo eich bod wedi deall a gall ei annog i ddweud mwy. Rhowch glod am bethau eraill y mae'n eu gwneud yn dda, fel gwrando ac ymdrechu.

**Ceisiwch leihau rhwystredigaeth neu embaras i'ch plentyn**
Defnyddiwch sylwadau fel 'Nid oedd Mam yn gwrando'n iawn'. Mae hyn yn llawer iawn gwell na dweud 'Dydw i ddim yn deall beth oeddet ti'n ei ddweud' (a all wneud

i'r plentyn deimlo nad yw'n siarad yn dda). Mae'n bosibl y byddwch chi am annog eich plentyn i ddweud wrthych yn nes ymlaen, os na allwch chi ddeall.


**Peidiwch â chymryd arnoch eich bod yn deall**
Yn lle hynny, ceisiwch ofyn cwestiynau neu ddweud "Dangos i fi …." Anogwch y defnydd o ystum a meim ynghyd â gofyn i'ch plentyn fynd â chi at bethau.

Yn olaf, **gwiriwch fod eich plentyn yn clywed yn iawn.** Gofynnwch I'ch Ymwelydd Iechyd, Meddyg Teulu neu Nyrs Iechyd Ysgol am brawf clyw os ydych chi'n bryderus. Hyd yn oed os bydd hwn yn iawn, cofiwch siarad yn araf ac yn glir gyda'ch plentyn fel rheol gyffredinol er mwyn iddo allu clywed enghreifftiau da o gynhyrchu lleferydd a gallu dysgu'r rheolau'n haws am sut mae geiriau'n cael eu hynganu.

Cofiwch fod ***yr hyn*** y mae eich plentyn yn ei ddweud (y cynnwys) yn fwy pwysig na ***sut*** mae'n ei ddweud.

Mae'n bwysig i blant fwynhau cael sgyrsiau ac i deimlo eu bod yn gwneud yn dda yn cyfathrebu gydag eraill.

**Gwefannau Defnyddiol**
www.ican.org.uk/talkingpoint
www.afasic.org.uk/pdf/improving-the-making-of-sounds.pdf



Weithiau ni fydd hi'n amser cyfleus i chi (nac i'ch plentyn) fynd i gael therapi iaith a lleferydd am resymau personol. Cofiwch fod yn onest am hyn a bod yn ymwybodol os na fyddwch chi'n mynychu apwyntiadau heb ddweud wrthym, y byddwch chi'n cael eich rhyddhau.

**I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â:**

Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd ar 01633 431633

8.30am i 4.30pm Dydd Llun i Ddydd Gwener neu ewch i'n gwefan ar
www.sltgwentabhb.nhs.uk

Speech and Language Therapy in Gwent ..transforms lives